Rhif ymchwil gymdeithasol: 24/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/02/2026

# Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol 2025 i 2026

## Crynodeb gweithredol

## 1. Cyflwyniad

Lansiwyd y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru ('y cynllun peilot') ym mis Gorffennaf 2022. Gwnaed y taliadau cyntaf i bobl ifanc 18 oed a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun ym mis Awst 2022 ('Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun' Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r gwerthusiad o'r cynllun bellach yn ei bedwaredd flwyddyn. Dyma grynodeb o'r trydydd adroddiad blynyddol o'r gwerthusiad. Dyma'r adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd ers i'r cynllun peilot ddod i ben ac ers i'r holl bobl ifanc ymadael â'r cynllun.

### Trosolwg o'r cynllun peilot

Mae'r cynllun peilot yn talu incwm sylfaenol am ddwy flynedd i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae rhagor o fanylion am natur y cynllun peilot ar gael gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cynllun peilot ar agor i bobl ifanc gofrestru rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 ar gyfer pawb a oedd yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y cyfnod hwnnw. Cyfanswm y taliad incwm sylfaenol oedd £1,600 gros y mis, a oedd yn cael ei drethu o ymlaen llaw fel

bod y sawl a oedd yn ei gael yn cael swm net o £1,280 y mis, am ddwy flynedd, oni bai eu bod yn dewis ymadael â'r cynllun peilot yn gynnar.

Parhaodd pobl ifanc i gael y cymorth y mae pawb sy'n gadael gofal fel arfer yn ei gael gan eu hawdurdod lleol tra roeddent ar y cynllun peilot, a chynigiwyd cymorth ychwanegol iddynt hefyd ynglŷn â rheoli cyllid. At ei gilydd, cymerwyd rhan gan 97% o'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot (644 o unigolion).

## Trosolwg o'r gwerthusiad

Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Tachwedd 2022. Mae i fod i ddod i ben yn 2027 fel y gellir casglu a dadansoddi data o'r cyfnod cyn, yn ystod ac ar ôl y cynllun peilot.

## Y cwestiynau ymchwil yw:

- Cwestiwn ymchwil 1: Beth yw effaith y cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 2: A ydyw'r cynllun peilot yn cael ei roi ar waith fel y bwriadwyd?
- Cwestiwn ymchwil 3: Sut brofiad yw'r hyn a geir yn y cynllun peilot?
- Cwestiwn ymchwil 4: Sut mae'r cynllun peilot yn cyd-fynd â'r cynnig cyffredinol i bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru?
- Cwestiwn ymchwil 5: Pa mor gost-effeithiol yw'r cynllun peilot?

Mae'r gwerthusiad wedi'i gynllunio o amgylch pum maes craidd o'r enw 'pecynnau gwaith'. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

1. Cydgynhyrchu Mae grŵp o oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cyfarfod yn rheolaidd i roi cyngor i'r astudiaeth. Gwnaed nifer o newidiadau i'r astudiaeth yn dilyn eu cyngor.

2. Gwella damcaniaeth: Mae'r astudiaeth yn werthusiad sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth, ac mae'r gwerthusiad yn ceisio cynyddu dealltwriaeth o sut a pham y gallai'r cynllun peilot gael yr effeithiau bwriadedig ar wahanol bobl sy'n gysylltiedig, neu beidio.

3. Gwerthuso effaith: Mae effaith y cynllun peilot ar fywydau pobl ifanc yn cael ei mesur mewn perthynas ag iechyd a lles, eu cyllid, eu hymgysylltiad ag addysg a chyflogaeth, a'u hymgysylltiad â'u cymunedau.

4. Gweithredu a gwerthuso'r broses: Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar sut y mae'r cynllun peilot yn cael ei weithredu, ei ddarpariaeth barhaus, sut brofiad yw'r cynllun, a beth yw barn y sawl a fu'n rhan ohono.

5. Gwerthusiad economaidd: Bydd y gwerthusiad economaidd yn ystyried p'un a ydyw'r cynllun peilot yn cynrychioli gwerth am arian o ran y canlyniadau a gyflawnwyd.

## 2. Nodau a chwmpas yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tair prif faes dadansoddi: (1) profiadau pobl ifanc hanner ffordd drwy'r cynllun peilot ac ar ddiwedd y cynllun peilot, yn seiliedig ar gyfweliadau dilynol; (2) canfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol wrth i'r cynllun peilot ddod i ben; a (3) damcaniaeth rhaglen wedi'i diweddaru (model rhesymeg) a ddatblygwyd ac a fireiniwyd gan ddefnyddio data o bob rhan o'r gwerthusiad.

Mae'r trydydd adroddiad blynyddol yn darparu gwybodaeth fanwl am y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r data. Yn yr adroddiad cryno hwn, adroddir ar y canfyddiadau yn unig.

## 3. Y prif ganfyddiadau

### Profiadau pobl ifanc o'r cynllun peilot

Mae'r adran hon yn rhoi cipolwg o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc hanner ffordd drwy'r cynllun peilot, ac ar ddiwedd y cynllun peilot, tua dau neu dri mis ar ôl iddynt gael eu taliad olaf. Roedd y cyfweliadau hyn yn ymdrin â barn y cyfranogwyr ar ddyluniad a gweithrediad y cynllun, sut yr effeithiodd ar eu bywydau, eu perthnasoedd a'u penderfyniadau, a'r hyn sydd wedi newid ers i'r taliadau ddod i ben.

Rhoddodd y cynllun peilot yr hyn a ddisgrifiwyd gan rai fel 'rhwyd ddiogelwch' i bobl ifanc, gan roi diogelwch ariannol a'u galluogodd i gynllunio a theimlo mewn rheolaeth dros eu bywydau. Disgrifiodd un cyfranogwr hyn fel gallu cynilo a theimlo'n ddiogel am eu tai: 'Byddai fel rhyw fath o rwyd ddiogelwch ... Mae'r arian hwnnw wedi'i gynilo gen i er mwyn gallu byw ar fy mhen fy hun ... a pheidio â phoeni am golli'r lle rydw i ynddo' (PI39 – hanner ffordd drwy'r cynllun peilot). Disgrifiodd eraill sut y trawsnewidiodd yr incwm eu synnwyr o bosibilrwydd. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc:

> 'Cyn yr arian, roeddwn i'n teimlo'n gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallwn ei wneud. Ac yn ystod cael yr arian ... Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n gallu gwneud yr hyn roeddwn i'n ei ddymuno, a byw fy mywyd yn y ffordd roeddwn i'n ei dymuno, a oedd yn gwneud i mi deimlo'n dda.' (PI46 – diwedd y cynllun peilot).

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hefyd yn datgelu pa mor heriol oedd yr addasiad i rai pobl ifanc pan ddaeth y cynllun peilot i ben. Canfu rhai bod eu cynilion wedi dod i ben yn gyflym wrth iddynt addasu i lai o incwm. Dywedodd un cyfranogwr, 'Fe wnes i [gynilo yn ystod y cynllun peilot], ond rydw i wedi ei orffen nawr ac yn ceisio dod i arfer â byw ar lai o incwm... Fyddai gen i ddim arian, felly roeddwn i'n gwario fy nghynilion am weddill y mis.' (PI53 – diwedd y cynllun peilot). Rhoddodd cyfranogwr arall gipolwg pwerus ar ddimensiwn emosiynol y newid hwn:

> 'Byddai pobl yn meddwl na fyddai angen iddynt boeni am arian pe bai ganddyn nhw'r cynllun peilot, ond yna, unwaith y byddai'n dod i ben, byddai'r cyfan yn chwalu. Mae fel pe bai rhywun yn cymryd cysur rhywun oddi wrthyn nhw, fel blanced neu rywbeth.' (PI31 – diwedd y cynllun peilot)

## Safbwyntiau ar ddyluniad y cynllun peilot

Roedd safbwyntiau pobl ifanc ar elfennau dylunio craidd y cynllun peilot yn cyd-fynd ar y cyfan â chanfyddiadau o'n ton gyntaf o ddadansoddi yn yr ail adroddiad blynyddol. Roeddent yn cefnogi 18 oed fel y man cychwyn, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y swm (£1,280 y mis ar ôl treth) yn briodol. Yng ngeiriau un cyfranogwr, roedd cael '... ddim yn rhy ychydig … ddim gormod' (PI12) yn eu galluogi i ddiwallu anghenion sylfaenol, dilyn diddordebau newydd, a sicrhau rhywfaint o ddiogelwch ariannol. Parhaodd y rhai a oedd yn gadael gofal i gael eu cymeradwyo'n eang fel grŵp targed o ystyried eu hanfanteision unigryw a'u diffyg cymorth ariannol deuluol, o'u cymharu â'u cyfoedion nad oedd wedi cael profiad o ofal. Fel y gwelsom yn flaenorol, mynegodd rhai bryderon y gallai dwy flynedd fod yn rhy fyr i gael budd yn llawn a pharatoi ar gyfer y newid i fywyd heb yr incwm sylfaenol, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir i osgoi creu dibyniaeth. O ran yr elfen ddiamod, roedd pobl ifanc yn dal i werthfawrogi'r rhyddid a ddarparwyd gan hyn, yn enwedig mewn cyferbyniad â'u profiadau gofal lle'r oedd penderfyniadau'n aml yn cael eu gwneud drostyn nhw.

## Llesiant, ymreolaeth a rheolaeth

Yn aml, byddai'r bobl ifanc yn adrodd bod yr incwm sylfaenol wedi cael effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn ystod y cynllun peilot. Roedd llai o straen ariannol yn caniatáu iddynt fyw yn y presennol heb boeni am ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Disgrifiodd y bobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu dyfodol, gyda'r diogelwch ariannol yn galluogi meddwl am y dyfodol yn y tymor hwy a chanolbwyntio arno.

Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o ymreolaeth a rheolaeth dros yr incwm sylfaenol a ddarparwyd. Disgrifiodd llawer eu bod yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i wario eu hamser a'u harian, cymryd rhan mewn gweithgareddau, a buddsoddi mewn perthnasoedd. Roedd y cynllun peilot wedi galluogi cyfranogiad mewn gweithgareddau bob dydd y byddai llawer o'u cyfoedion nad oedd wedi cael profiad o'r maes gofal yn eu cymryd yn ganiataol, megis cymdeithasu, mynd ar drywydd eu diddordebau, a gwneud gweithgareddau hamdden.

## Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Roedd effeithiau'r incwm sylfaenol ar addysg a chyflogaeth yr adroddwyd gan gyfranogwyr y cyfweliadau yn amrywiol. I rai, roedd y diogelwch ariannol yn eu galluogi i ddilyn cyfleoedd addysgol na fyddent wedi gallu eu fforddio fel arall. Disgrifiodd y bobl ifanc eu bod yn gallu talu am gyrsiau, offer, cludiant i'r coleg neu'r brifysgol, a chael yr hyder i ymrwymo i addysg

gan wybod y gallent gyflawni eu rhwymedigaethau ariannol. O ran cyflogaeth, disgrifiodd rhai sut y rhoddodd y cynllun peilot y lle iddynt benderfynu beth yr oeddent am ei wneud, yn hytrach na chymryd y swydd gyntaf a oedd ar gael allan o reidrwydd.

Fodd bynnag, dywedodd eraill fod llai o gymhelliant i ymgymryd â gwaith wrth gael yr incwm sylfaenol. Cydnabu rhai eu bod yn teimlo llai o frys i ddod o hyd i swydd pan oeddent yn cael yr incwm sylfaenol bob mis. Mae'n ymddangos bod yr effeithiau amrywiol yr adroddwyd amdanynt mewn cyfweliadau ansoddol yn gysylltiedig, o leiaf yn rhannol, â chymhellion y cyfranogwyr, yn ogystal â'u hamgylchiadau unigol a'u cyfyngiadau strwythurol. Yn arbennig, dywedodd llawer o'r bobl ifanc wrthym nad oedd gwaith ei hun bob amser yn gyraeddadwy nac yn ddibynadwy. Disgrifiwyd anawsterau o ran dod o hyd i gyflogaeth sefydlog ac ansicrwydd yr ychydig swyddi a oedd ar gael.

## Ymdopi â diwedd y cynllun peilot

Symudodd rhai pobl ifanc o'r cynllun peilot i Gredyd Cynhwysol. Bu'r newid hwn yn heriol i lawer o'r rhai a'i cafodd. Disgrifiodd pobl ifanc y gostyngiad sydyn mewn incwm fel un sylweddol ac anodd ei reoli. Roedd y gwrthgyferbyniad rhwng y rhyddid ariannol yn ystod y cynllun peilot a'r cyfyngiadau ar ôl iddo ddod i ben yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro.

Roedd rhai pobl ifanc wedi cronni cynilion a helpodd i hwyluso'r newid, tra bod eraill wedi cael trafferth addasu, ac roedd rhai wedi cronni dyledion. Disgrifiodd llawer nad oeddent bellach yn gallu gwneud y gweithgareddau neu wneud rhai o'r dewisiadau a oedd ganddynt yn ystod y cynllun peilot. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr amodau ynghlwm wrth y Credyd Cynhwysol, a oedd yn heriol ac yn golygu bod gan gyfranogwyr lai o ryddid nag oedd ganddynt yn ystod y cynllun peilot. Dywedodd sawl person ifanc eu bod wedi dymuno eu bod wedi cynilo mwy neu wedi gwneud dewisiadau gwahanol yn ystod y cynllun peilot. Wrth edrych yn ôl, teimlai llawer y byddent yn rheoli'r arian yn wahanol pe baent yn cael y cyfle eto.

## Rheoli arian y prosiect

Fel y nodwyd uchod, roedd gan bobl ifanc brofiadau cymysg o ran rheoli eu hincwm sylfaenol. Roedd rhai wedi datblygu hyder dros amser, ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn cyllidebu erbyn diwedd y cynllun peilot. Roedd eraill yn gweld rheoli eu harian yn heriol drwyddi draw, ac yn feirniadol o'u penderfyniadau gwario eu hunain. Nodwyd oedran fel ffactor, gyda llawer yn teimlo eu bod wedi aeddfedu erbyn diwedd y cynllun peilot.

Roedd yn ddiddorol nodi bod rhai pobl ifanc yn teimlo na fu hi'n angenrheidiol datblygu sgiliau cyllidebu cryf yn ystod y cynllun peilot oherwydd bod y swm yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion heb gynllunio gofalus. Disgrifiodd y bobl ifanc hyn angen cynyddol i ddatblygu sgiliau o'r fath ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben pan ostyngwyd eu hincwm yn sylweddol. Pan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn ei wneud yn wahanol, cynilo mwy oedd yr ymateb mwyaf cyffredin o bell ffordd. Mynegodd nifer o bobl ifanc a gyfwelwyd gennym awydd i

gael mwy o oruchwyliaeth neu gymorth wrth reoli'r incwm. Dim ond ychydig o'r cyfranogwyr yn y cyfweliadau a ddywedodd eu bod wedi cymryd rhan mewn sesiynau cynghori gyda Chyngor ar Bopeth neu gynghorwyr arbenigol tebyg.

## Canfyddiadau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol

Mae'r adran hon yn adrodd ar grwpiau ffocws dilynol gyda gweithwyr proffesiynol a gynhaliwyd tua'r adeg y daeth y cynllun peilot i ben. Yn gyson â chanfyddiadau cynharach, fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad blynyddol cyntaf gan Holland ac eraill (2024), roedd barn a chanfyddiadau proffesiynol yn parhau i fod yn gymysg.

Roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod y cynllun peilot wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc, er eu bod wedi adrodd am ganlyniadau amrywiol. Fel y nodwyd gan un rheolwr tîm,

> 'I'n holl bobl ifanc ni, rhoddodd hwn gyfleoedd iddyn nhw, oherwydd roedd gan bawb, i ryw raddau, ddewis sut yr oedden nhw eisiau defnyddio'r arian hwnnw. Ond i rai o'n pobl ifanc, maen nhw wedi manteisio ar y cyfleoedd hynny yn fwy nag eraill.' (P62, Rheolwr Tîm – diwedd y cynllun peilot).

Tynnodd rhai sylw at sut yr oedd diogelwch ariannol wedi cael gwared ar rai cyfyngiadau, ac wedi newid y mathau o waith uniongyrchol yr oeddent yn gallu ei wneud gyda phobl ifanc, gan roi'r 'rhyddid a'r amser iddynt gael sgyrsiau am y pethau eraill ... y byddai pobl ifanc eraill [heb brofiad o'r maes gofal] fel oedolion ifanc yn eu cael gyda'u ffrindiau, gyda'u rhieni, gyda'u gofalwyr.' (P21, Rheolwr Tîm – diwedd y cynllun peilot). Fodd bynnag, roedd y gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn parhau i fod yn bryderus ynghylch yr effeithiau negyddol posibl ar gymhelliant i rai derbynwyr:

> '... y rhai lle'r oedden ni'n cael trafferth oedd lle'r oedd pobl a oedd wir wedi'u cymell, yn gwneud yn dda, weithiau hyd yn oed yn gweithio, yna'n rhoi'r gorau i weithio, oherwydd bod ganddyn nhw incwm nad oedd yn rhaid iddyn nhw weithio amdano.' (T63, Pennaeth Gwasanaeth – diwedd y cynllun peilot)

## Canfyddiadau cyffredinol

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'r cynllun peilot mewn tri gair, 'cyfle' oedd y term a ddefnyddiwyd amlaf – yr un fath ag ar ddechrau'r cynllun peilot. Fodd bynnag, roedd i'r gair hwn sawl ystyr: y cyfle a gynigiwyd gan yr incwm sylfaenol, cyfleoedd y cafodd pobl ifanc fynediad atynt yn ystod y cynllun peilot, a chyfleoedd y canfuwyd eu bod wedi'u colli neu eu gwastraffu. Roedd geiriau cyffredin eraill yn cynnwys termau ffafriol a beirniadol yn benodol, fel 'buddiol' a 'heriol'.

Adroddodd gweithwyr proffesiynol fod y bobl ifanc y buont yn gweithio gyda nhw ar y cynllun peilot wedi defnyddio'r arian mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ar gyfer gwariant hanfodol a dewisol, yn ogystal â chynilo. O ran effeithiau canfyddedig, gwelodd

gweithwyr proffesiynol rai pobl ifanc yn ffynnu, eraill prin yn ymdopi, a rhai yn ei chael hi'n anodd, sy'n gyson ag ymchwil flaenorol ar adael gofal (Stein 2012).

Ymhlith y canlyniadau cadarnhaol a nodwyd gan weithwyr proffesiynol, roedd y bobl ifanc wedi cael profiad o bethau na fyddent wedi gallu ei gael fel arall, gan fuddsoddi mewn addysg a hyfforddiant, a dysgu gyrru. Adroddodd eraill am effeithiau niwtral lle'r oedd y bobl ifanc yn gorffen y cynllun peilot mewn sefyllfa heb fod yn wahanol iawn i'r adeg pan ddechreuwyd. Adroddodd nifer lai am ganlyniadau pryderus, yn enwedig i bobl ifanc a oedd eisoes yn agored i niwed, megis caethiwed neu fod yn agored i gam-fanteisio.

## Ymreolaeth ac ymgysylltu â chymorth

Roedd cytundeb eang bod yr incwm sylfaenol yn lleihau dibyniaeth pobl ifanc ar gymorth ffurfiol. Roedd rhai gweithwyr proffesiynol yn croesawu hyn, gan ddweud ei fod wedi arwain at wahanol fathau o sgyrsiau – am lesiant, perthnasoedd, a dyheadau, yn hytrach na dim ond materion ariannol ymarferol. Fodd bynnag, roedd llawer o weithwyr proffesiynol yn bryderus ynghylch llai o ymgysylltiad â rhai pobl ifanc, yn enwedig y rhai yr oeddent yn teimlo eu bod yn agored i niwed. Adroddodd rhai fod pobl ifanc yn 'diflannu' ar ôl iddynt gael annibyniaeth ariannol, gan ei gwneud hi'n anoddach darparu cefnogaeth a diogelwch. Roedd hyn yn creu tensiynau i ymarferwyr a oedd yn cydbwyso parch at ymreolaeth pobl ifanc â'u cyfrifoldeb proffesiynol i warchod a chynorthwyo.

## Tai, iechyd ac addysg

Roedd yn ymddangos bod y cynllun peilot wedi cynyddu dewisiadau pobl ifanc o ran tai, gyda rhai yn gallu cael mynediad at lety gwell neu fwy diogel. Fodd bynnag, roedd argaeledd tai yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol mewn sawl ardal, gan gyfyngu ar yr hyn y gallai'r incwm ychwanegol ei gyflawni.

Roedd gweithwyr proffesiynol wedi gweld effeithiau amrywiol ar iechyd a llesiant. I rai pobl ifanc, roedd yn ymddangos bod llai o straen ariannol wedi gwella eu hiechyd meddwl. Roedd eraill wedi defnyddio'r arian mewn ffyrdd a oedd wedi gwaethygu'r gwendidau presennol, er enghraifft, prynu cyffuriau. Yn gyson â'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y cyfweliadau, roedd yr effeithiau ar addysg a chyflogaeth, yn ôl gweithwyr proffesiynol, hefyd yn gymysg, ac yn cynnwys rhai yn defnyddio'r diogelwch ariannol i ddilyn cymwysterau, ond eraill yn ymddieithrio o addysg neu waith.

## Damcaniaeth y rhaglen wedi'i diweddaru

Mae damcaniaeth y rhaglen gychwynnol a gyflwynwyd yn yr adroddiad blynyddol cyntaf wedi'i mireinio gan ddefnyddio data a gasglwyd o gyfweliadau â derbynwyr a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol ar ddechrau a diwedd y cynllun peilot. Mae'r model rhesymeg ddiwygiedig yn nodi un 11 o lwybrau achosol y gall y cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau drwyddynt os yw'n gweithio'n dda (er enghraifft, i'r rhai sy'n nodi effeithiau cadarnhaol).

Mae'r prif fecanweithiau y mae'n ymddangos bod yr incwm sylfaenol yn gweithredu drwyddynt yn cynnwys cynyddu incwm gwario, gwella ymdeimlad o ymreolaeth, galluogedd a sicrwydd, a lleihau straen ariannol. Fe wnaeth hyn ymestyn 'gorwelion amser', gan alluogi meddwl mwy sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Yn fwy ymarferol, cynyddodd y cynllun peilot fynediad at drafnidiaeth a symudedd. Mae ffactorau cyd-destunol pwysig sy'n dylanwadu ar ganlyniadau yn cynnwys gwendidau presennol a rhwydweithiau cymorth y derbynwyr; argaeledd tai yn lleol; cymhelliant sy'n bodoli eisoes i ymgysylltu ag addysg neu gyflogaeth; hyd y cynllun peilot; a mynediad at ofal iechyd a ariennir, a gwasanaethau eraill.

Mae'r ddamcaniaeth ddiwygiedig hefyd yn nodi canlyniad ychwanegol: effeithiau tlodi wedi'u gwella i eraill, wrth i rai sy'n cael yr arian ddefnyddio eu hincwm cynyddol i gynnal aelodau'r teulu a ffrindiau. Fodd bynnag, nodwyd bod gwendidau presennol a rhwydweithiau cymorth cyfyngedig yn cynyddu'r risg o gamfanteisio'n ariannol gan eraill ar rai unigolion.

## 4. Trafodaeth

Mae'r dadansoddiad hwn yn cwblhau rhai o'r llinellau ymholi a agorwyd gennym yn gynharach yn y gwerthusiad. Mae damcaniaeth y rhaglen wedi'i diweddaru yn awgrymu cefnogaeth gref i lwybrau o amgylch ymreolaeth, galluogedd, a chyfranogiad mewn gweithgareddau ystyrlon, ond tystiolaeth gyfyngedig o amgylch y cyngor ariannol arbenigol, nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i ddefnyddio gan lawer sy'n cael yr arian, yn ôl barn cyfranogwyr y cyfweliad a'r grwpiau ffocws. Cefnogaeth oedd un o'r prif ffactorau cyd-destunol (ynghyd â gwendidau presennol, sefydlogrwydd tai, a chymhelliant) a oedd yn penderfynu a oedd y cynllun peilot yn gweithio i wahanol bobl a sut. Mae'r ddamcaniaeth ddiwygiedig yn pwysleisio bod canlyniadau'n ddibynnol iawn ar gyd-destun.

Mae'r dadansoddiad yn dangos gwahaniaeth Van Parijs (1997) rhwng rhyddid ffurfiol (y gallu damcaniaethol i wneud rhywbeth) a rhyddid go iawn (y gallu ystyrlon i'w wneud mewn gwirionedd o ystyried digon o adnoddau). I lawer, gwnaeth y cynllun peilot ennyn ymdeimlad gwirioneddol o ryddid. Roedd gwyliau, teithio lleol, a gweithgareddau hamdden wedi dod yn rhywbeth realistig am y tro cyntaf, heb ddibynnu ar eraill. Fodd bynnag, yn aml, nid oedd y sawl a gafodd yr arian yn glir o ran beth oedd yr arian 'ar ei gyfer', tra bod gweithwyr proffesiynol o blaid ychwanegu amodau fel mynychu sefydliad addysg neu fynd i apwyntiadau gyda chynghorwyr fel cyfrwng i ddysgu gwersi bywyd pwysig. Ar ben hynny, roedd gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn amrywio yn eu ffocws ar ffyniant presennol o'i gymharu â ffyniant y dyfodol. Roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi manteision uniongyrchol fel llai o straen, ymreolaeth ac urddas, tra bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau hirdymor. Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol: a ydyw rhyddhad dros dro rhag anfantais yn werthfawr yn ei hanfod, neu a oes rhaid i ymyriadau brofi effaith barhaol? Heb leihau pwysigrwydd effeithiau hirdymor, byddai'n gamgymeriad anwybyddu'r manteision tymor byr pendant y mae llawer o bobl ifanc wedi adrodd amdanynt.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod cynlluniau incwm sylfaenol wedi'u hymgorffori mewn systemau cymhleth ac amherffaith. Roedd prinder tai yn golygu, er bod y cynllun peilot wedi agor mynediad at lety gwell, fod rhai wedi wynebu ôl-ddyledion a dyledion yn fuan ar ôl iddynt ymadael. Er mor hael oedd y cynllun peilot, efallai y bydd gan y cynllun effaith gyfyngedig heb ymyriadau ategol sy'n mynd i'r afael â thai a chyflogaeth. Mae'r cynllun peilot yn tynnu sylw'n anfwriadol at yr angen am newidiadau dyfnach o ran polisi yn y ffordd y mae'r wladwriaeth yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal.

## 5. Casgliadau

Mae'r naratifau ansoddol a gyflwynir yma yn dangos mecanweithiau y mae newid yn digwydd drwyddynt, a pham y mae canlyniadau'n amrywio ar draws y garfan. Mae llawer o gyfrifon yn cynnwys gwrthffeithiau wedi'u hymgorffori – gan egluro, heb yr arian, na allai'r cyfranogwyr fod wedi fforddio pethau a brynwyd ganddynt yn ystod y cynllun peilot. Mae'r naratifau hyn yn dangos pam y mae ymreolaeth yn bwysig, sut mae urddas yn fuddiol, a sut y mae llai o straen ariannol yn galluogi cynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar lefel unigol, gallai hyn ddarparu tystiolaeth achosol gredadwy, ond damcaniaeth ydyw yn ei hanfod oherwydd bod y gwrthffeithiol yn cael ei ddychmygu yn hytrach na'i brofi. Mae arnom angen data canlyniadau meintiol (sydd i ddod yn 2027) i ganfod a ydyw'r manteision hyn yn trosi'n newidiadau mesuradwy ar draws y garfan gyfan. Bydd hyn yn rhoi darlun gwell o'r cynllun peilot ar lefel bolisi, gan ddweud wrthym a oedd y manteision, ar gyfartaledd, yn gorbwyso'r anfanteision.

Mae gan yr adroddiad hwn ddau brif oblygiad ar gyfer polisi ac ymarfer. Yn gyntaf, mae'n codi cwestiynau ynghylch y ffordd orau o ddylunio cymorth ochr yn ochr â throsglwyddiadau arian parod. Roedd y nifer a ddefnyddiodd y gwasanaeth cyngor ariannol yn isel, er na allwn ddweud yn sicr pam y bu felly. Gall adlewyrchu fformat y cynnig, neu gall ddangos bod llawer o bobl ifanc yn ymdopi'n annibynnol. Mae rhywfaint o dystiolaeth o ddysgu sy'n seiliedig ar brofiad mewn perthynas â llythrennedd ariannol. Lle'r oedd pobl ifanc eisiau arweiniad, roeddent yn tueddu i'w geisio o'u rhwydweithiau presennol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn werth ystyried ffurfiau o ganllawiau rhagweithiol neu rai sy'n seiliedig ar berthnasoedd mewn mentrau polisi yn y dyfodol. Yn ail, mae'r gwrthgyferbyniad llwyr rhwng bywyd yn ystod ac ar ôl y cynllun peilot yn codi cwestiynau ynghylch hyd a chynaliadwyedd rhaglenni o'r fath. Er bod dwy flynedd o ddiogelwch ariannol wedi darparu manteision clir i lawer o'r rhai a gafodd yr arian, mae hyn yn codi'r cwestiwn a all cynlluniau peilot â therfyn amser greu newid cynaliadwy heb fynd i'r afael â materion strwythurol sylfaenol.

Wrth i'r gwerthusiad barhau, byddwn yn adeiladu ar y data ansoddol hwn gan unigolion sydd â thystiolaeth feintiol i ddarparu asesiad o effaith y cynllun peilot ar lefel bolisi. Mae'r profiadau a gyflwynir yma yn cynnig cyd-destun hanfodol ar gyfer deall nid yn unig a oedd y cynllun peilot yn llwyddiannus, ond sut, pam, ac i bwy. Dyma gwestiynau sy'n parhau i fod yn ganolog i lywio polisi'r dyfodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru a thu hwnt.

## 6. Cyfeiriadau

Holland S ac eraill (2024), 'Gwerthusiad peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru: adroddiad blynyddol, 2023 i 2024', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 12/2024

Mathur V ac eraill (2025), 'Gwerthuso'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru: Ail Adroddiad Blynyddol 2024 i 2025', Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 33/2020: 20/2025

Stein M (2012), 'Young people leaving care: supporting pathways to adulthood', Llundain: Jessica Kingsley Publishers

Van Parijs P (1997), 'Real freedom for all: what (if anything) can justify capitalism?', Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

Welsh Government (2022), 'Cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal: trosolwg o'r cynllun ', Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Awduron yr adroddiad: Zoe Bezeczky[1], Vibhor Mathur[1], Louise Roberts[1], Dimitris Vallis[2], Michael Sanders[2], Kate E Pickett[4], Matthew Johnson[5], Rod Hick[6], Elizabeth Schroeder[3], Patrick Fahr[3], Stavros Petrou[3], Sally Holland[1] a David Westlake[1]

1. Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

2. Y Sefydliad Polisi, Coleg y Brenin, Llundain

3. Adran Gofal Sylfaenol Gwyddorau Iechyd Nuffield, Prifysgol Rhydychen

4. Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Efrog

5. Yr Adran Gwaith Cymdeithasol, Addysg a Lles Cymunedol, Prifysgol Northumbria

6. Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Adroddiad Ymchwil Terfynol: Bezeczky Z, Mathur V, Roberts L, Vallis D, Sanders M, Pickett KE, Johnson M, Hick R, Schroeder E, Fahr P, Petrou S, Holland S, Westlake D. (2026). Gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru: trydydd adroddiad blynyddol, 2025 i 2026. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 24/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-peilot-incwm-sylfaenol-i-pobl-ifanc-syn-gadael-gofal-yng-nghymru-adroddiad-blynyddol-2025-2026

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o fanylion, dyma'r manylion cyswllt:

Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-943-7